| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 28 Medi 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Teitl:** | Diweddariad ar Archwiliad Mewnol Ysgol Mair |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynllun gweithredu'r adroddiad Archwilio Mewnol ar gyfer Ysgol Mair.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
Roedd adroddiad Archwilio Mewnol ym mis Awst 2015 yn cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer nifer o feysydd gwella yn Ysgol Mair. Yn arbennig roedd yn amlygu'r diffyg ariannol yn yr Ysgol a bod angen datblygu cynllun adfer cadarn. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi trafod yr adroddiad Archwilio Mewnol o'r blaen mewn dau gyfarfod ac wedi gofyn am adroddiad cynnydd pellach yn y cyfarfod hwn.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**
Dylai'r Pwyllgor ystyried y cynnydd a wnaed a phenderfynu a oes angen unrhyw adroddiadau cynnydd pellach.

**4. Manylion yr Adroddiad**
Mae Atodiad 1 yn rhoi'r adroddiad cynnydd diweddaraf ar y cynllun gweithredu, sy'n dangos ei fod bron yn gyflawn. Yn benodol, mae sefyllfa ariannol yr Ysgol wedi newid ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor hwn.

Pan gyhoeddwyd yr adroddiad Archwilio Mewnol, roedd yr Ysgol yn rhagweld diffyg ariannol o £40,000 ar gyfer 2015/16, a fyddai'n codi i dros £300,000 erbyn 2017/18 os na fyddai'n gweithredu o gwbl. Mae cynllun adfer wedi cael ei roi ar waith a arweiniodd mewn gwirionedd at weddill bychan yn 2015/16 a rhagwelir y bydd gweddill bob blwyddyn hyd at 2018/19 yn seiliedig ar ddyraniadau presennol y gyllideb. Cyflawnwyd hyn yn bennaf drwy newidiadau staffio.

Yr unig faes sy'n weddill yn y cynllun gweithredu yw cwblhau'r dogfennau gweithdrefn ariannol i gynorthwyo gyda hyfforddi a pharhad staff. Mae gwaith wedi dechrau ar y rhain ond, oherwydd absenoldeb salwch staff, nid ydynt wedi cael eu cwblhau hyd yma.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed o’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fod wedi ei atodi i'r adroddiad**
   Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**
   Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
   Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**
    Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. **Pŵer i wneud Penderfyniad**
    Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.